COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 14 RHAGFYR 2023 AM 10 O'R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

Yn bresennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | RM Granville | M L Hughes | RL Penhale -Thomas |
| F D Bletsoe | S J Griffiths | AJ Williams | T Thomas |

Ymddiheuriadau am absenoldeb

P Davies ac M Jones

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoliadol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaethau Partneriaethol |
| Philip O'Brien | Rheolwr Grŵp Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Zoe Edwards | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu dros dro |

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd HJ David | Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd J Gebbie | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Y Cynghorydd H Williams | Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol |
| Y Cynghorydd J Spanswick | Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a’r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd JP Blundell | Aelod y Cabinet dros Addysg |
| Y Cynghorydd N Farr | Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch a Lles Cymunedol |

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

## 94. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 23 Hydref 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Rhagfyr 2023 |

## 95. Perfformiad Chwarter 2 2023-24

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau’r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:<br>1. Bod Cyfarwyddiaethau'n cwblhau adran naratif eu Dangosfyrddau Perfformiad mor llawn â phosibl, i ddangos lle mae camau unioni yn eu lle, beth sy'n cael ei wneud i liniaru neu i ddileu rhwystrau.<br>2. Yn dilyn trafodaeth ynghylch enghreifftiau lle'r adroddwyd yr un naratif ar gyfer mwy nag un ymrwymiad, neu ar gyfer Cynnydd y Cyfnod hwn a'r Camau Nesaf ar gyfer yr un ymrwymiadau, y dylid ystyried sut y gellir coladu'r camau nesaf a'r camau gweithredu yn gynllun gweithredu ar gyfer monitro parhaus. |

| | |
|---|---|
| | 3. Bod Aelodau Lleol yn cael eu gwahodd i Sesiwn Briffio ar gyfer y rheiny oedd â diddordeb mewn cyfleoedd Cartrefi Hunanadeiladu a gofyn iddynt nodi unrhyw dir posibl ar gyfer safleoedd yn eu cymunedau.<br>4. Bod gwell cysylltiadau a chydweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned o ran plannu coed yn cael ei gyfeirio at Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned fel eitem i'w thrafod.<br>5. Ychwanegu'r nifer presennol o draethau Baner Las a pharciau'r Faner Werdd at y Dangosyddion Perfformiad hynny ar gyfer Dangosfwrdd Chwarter 3 os ydynt o fewn y cyfnod cywir neu eu hegluro yn y naratif os nad ydynt, a bod y ddau ddangosydd hyn yn cael eu newid i Ddangosyddion Blynyddol.<br>6. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at Weinidog Cyllid Cymru yn mynegi bod ymrwymiadau polisi cenedlaethol i gael eu hariannu'n llawn o ran cyllid cyfalaf a chyllid refeniw parhaus ac na ddylai cyfrifoldebau craidd gael eu gwanhau drwy beidio ag ariannu ymrwymiadau polisi cenedlaethol yn llawn, megis Teithio Llesol, parth 20 milltir yr awr, Cinio Ysgol Gynradd Cyffredinol a Moderneiddio Ysgolion, ac yn y blaen.<br><br><u>Gwybodaeth Ychwanegol</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:<br>7. Bod data Gwybodaeth am Berfformiad blaenorol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei dorri i lawr i gynnwys dadansoddiad o dueddiadau, o Berfformiad y Chwarter nesaf ymlaen, a bod papur briffio ar y cynnydd hyd yma yn cael ei ddarparu i'w gylchredeg i Aelodau COSC i roi sicrwydd.<br>8. Adroddiad Arolwg Heronsbridge.<br>9. Diweddariad ar nifer y Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol sy'n symud ymlaen a'r camau o'r adroddiad taenlen misol diweddaraf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Rhagfyr 2023 |

## 96. Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau’r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:<br><br>10. Cydnabu’r Pwyllgor nodau ac amcanion y strategaeth ddrafft a thynnodd sylw at y ffaith y dylid cynnwys sut i fynd i’r afael â’r materion a ganlyn mewn cynllun gweithredu ynghylch y ffordd y caiff y Strategaeth ei gweithredu a’i monitro:<br><br>- Nid yw’r wefan yr hawsaf i'w llywio<br>- Nifer y cliciau o'r hafan i'r Agenda ar gyfer cyfarfodydd<br>- Pwy i'w dilyn drwy’r cyfryngau cymdeithasol a pha mor aml y defnyddir y cyfryngau cymdeithasol<br>- Beth sydd wedi ei gynllunio i sicrhau effeithiolrwydd wrth ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gyfrwng cynnwys gweledol yn hytrach na chynnwys ysgrifenedig yn unig<br>- Nifer isel y deisebau E sydd wedi dod i law ers mis Mai 2022<br>- Sut i annog y cyhoedd i arsylwi cyfarfodydd ac ymgysylltu<br>- Sut i fesur lefelau ymgysylltu ac effaith ymgynghori<br>- Sut i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc<br><br>11. Yn dilyn yr ymgynghoriad y dylid ychwanegu'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd ar gyfer y strategaeth at y Flaenraglen Waith ar yr adeg briodol, er mwyn monitro cynnydd y gweithredu.<br><br><u>Gwybodaeth Ychwanegol</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>12. Adroddiad yr Adolygiad Cymheiriaid ar Gyfathrebu.<br><br>13. Ystadegau ar gyfer cyfraddau galwadau ac amseroedd ateb a nodi’r amseroedd galw prysur a llai prysur. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Rhagfyr 2023 |

## 97. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a restrir isod, nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiadau C, D ac E, a nododd y Taflenni Monitro Gweithredu Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau B, F, G ac H:<br><br>a. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu a ddylid ychwanegu adroddiad yn y dyfodol ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl at eu Blaenraglen Waith neu ei gyfeirio at SOSC 3 i'w ystyried, ar ôl derbyn y papur briffio ar y cynnydd hyd yma, y gofynnwyd amdano yn 7 uchod.<br><br>b. Nododd y Pwyllgor fod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ynghylch y Bathodyn Glas wedi cael ei drefnu i gael ei gynnal yn hydref 2023 yn yr ymateb a ddarparwyd i Fonitro Argymhellion 24 Gorffennaf 2023 a gofynnodd am ddiweddariad ar yr ymateb. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Rhagfyr 2023 |

## 98. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Rhagfyr 2023 |

I arsylwi trafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.55.